# Datganiad Polisi Cyhoeddus

## Gwahaniaethu, Hawliau Dynol a hawliau’r iaith Gymraeg

## Medi 2022[1]

### Crynodeb

Dylai pawb fod yn medru byw gydag urddas a pharch. Mae pobl hŷn yn aelodau cyfartal o gymdeithas ac ni ddylent ddioddef gwahaniaethu ar sail oedran a ni ddylen nhw ddioddef ymddygiad rhagfarnllyd. Fodd bynnag, mae agweddau negyddol tuag at bobl hŷn a heneiddio yn hollbresennol yn ein cymdeithas. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o fathau eraill o wahaniaethu, mae gwahaniaethu ar sail oedran yn seiliedig ar stereoteipiau anghywir. Mae'r agweddau rhagfarnllyd hyn yn aml yn cael eu hadlewyrchu a'u hyrwyddo gan y cyfryngau. Effaith gwahaniaethu ar sail oedran yw bod pobl hŷn yn aml yn profi triniaeth wahaniaethol. O ganlyniad, nid yw'r gymdeithas yn elwa o'r pethau gwerthfawr mae pobl hŷn yn eu cynnig - fel darpar weithwyr, gwirfoddolwyr, cynrychiolwyr etholedig a sawl rôl arall. Er mwyn sicrhau bod Cymru'n wlad sy'n ystyriol o oedran, dylai pobl hŷn gael yr un mynediad at wasanaethau â gweddill y boblogaeth, a'r hawl i gael eu trin â pharch gan gymdeithas.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu set o adnoddau deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle ac wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Iechyd a gofal cymdeithasol yw'r prif feysydd lle bydd cael gwared ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran yn gwella bywydau pobl hŷn. Mae'r sector gwasanaethau ariannol wedi'i eithrio o'r gwaharddiad i raddau helaeth.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol er mwyn amddiffyn pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb oedran. Rhaid i hyn gael ei orfodi'n gadarn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddeall anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio.  Mae'n sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wnânt yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl hŷn.

[1] Adran hawliau'r iaith Gymraeg (Tachwedd 2022).

Er gwaethaf cyflwyno deddfwriaeth y DU ar ffurf Deddf Cydraddoldeb 2010, a fframwaith polisi sylweddol yn y cyd-destun datganoledig, mae angen gwneud llawer mwy er mwyn sicrhau cydraddoldeb ystyrlon i bobl hŷn.
O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gwaharddiad llwyr ar wahaniaethu ar sail oedran mewn iechyd a gofal cymdeithasol, er y gall pobl barhau i gael eu trin yn wahanol os oes cyfiawnhad gwrthrychol. Mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n cael diagnosis o ganser y fron dros 50 oed[2]. Fodd bynnag, nid yw menywod dros 70 oed yng Nghymru yn cael eu galw'n awtomatig er mwyn cael eu sgrinio ar gyfer canser y fron, mae angen iddynt hunangyfeirio. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyfiawnhad gwrthrychol dros gael terfynau oedran ar gyfer y gwasanaethau sgrinio ar gyfer canser.

Mae'n parhau i fod yn bryder mawr y gallai eithriad eang ynghylch gwasanaethau ariannol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gyfyngu mynediad pobl hŷn at adnoddau hanfodol gan gynnwys benthyciadau, morgeisi ac yswiriant, gan ei gwneud hi'n anoddach i bobl hŷn ddod o hyd i'r cynhyrchion gorau. Mae system gyfeirio yn bodoli ar gyfer yswiriant teithio a modur, ond nid oes system o'r fath ar gyfer benthyca.

Mae gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth yn parhau i fod yn beth cyffredin er gwaethaf cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010. Credwn y dylai pawb allu gweithio cyhyd â'u bod yn dymuno gwneud hynny ac yn medru gwneud hynny, ac ni ddylai unrhyw un fod dan anfantais oherwydd eu hoedran.

Mae allgáu digidol yn her fawr i bobl hŷn. Gan fod mwy o wybodaeth a gwasanaethau wedi symud ar-lein, mae risgiau gwirioneddol o eithrio pobl hŷn. Mae'n rhaid cefnogi ac annog pobl hŷn i ennill sgiliau digidol a mynd ar-lein os ydyn nhw'n medru gwneud hynny, ac yn gallu fforddio gwneud hynny. Mae angen i'r gwasanaethau a ddarperir ar-lein fod o ansawdd uchel ac yn hawdd eu defnyddio, tra dylai gwasanaethau all-lein fod o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw darparu gwybodaeth ar-lein yn golygu nad oes modd darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill.

Mae'r safonau hawliau dynol yn darparu amddiffyniad hanfodol i bobl hŷn trwy helpu i newid gweithdrefn, diwylliant ac agweddau a chynnig iawndal pan fydd achosion o dorri hawliau dynol wedi digwydd. Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol ddiogelu hawliau a rhyddid y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac ni ddylai danseilio effeithiolrwydd neu gwmpas Deddf Hawliau Dynol 1998 na'r potensial i orfodi'r ddeddf ledled y DU.

Credwn fod yn rhaid ymestyn amddiffyniadau'r Ddeddf Hawliau Dynol i bob person hŷn drwy sicrhau bod pob darparwr gwasanaethau gofal rheoledig yn cael eu hystyried yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf, waeth pwy sy'n ariannu'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau ac yn cael eu cefnogi i'w harfer, a'u bod hefyd yn ymwybodol pan fydd eu hawliau wedi'u torri. Rydym yn croesawu dull

[2] Canser y fron, mewn menywod (29/09/22)

gweithredu'n seiliedig ar hawliau Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio a'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn.[3]

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[4] yn golygu fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Crëwyd safonau'r Gymraeg sy'n hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[5,6] Mae gan siaradwyr Cymraeg hawl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan sefydliadau cyhoeddus* heb orfod gofyn am y gwasanaethau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, llythyrau, e-byst, ffurflenni ar-lein a galwadau ffôn yn y Gymraeg, a defnyddio'r Gymraeg ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r hawliau hyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu creu gan safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn medru defnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'u bywyd.[7]

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal. I lawer o bobl hŷn mae defnyddio'r Gymraeg yn fater o angen clinigol, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia neu sydd wedi cael strôc a cholli eu sgiliau Saesneg.[8] Mae cynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru yn manylu ar sut y byddant yn gwreiddio'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn i bobl fedru cael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen. Nododd y cynllun pum mlynedd anghysondeb o ran cynnydd; roedd argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn amrywio, ac mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â materion o'r fath.[9]

Mae'n hanfodol bod y sefydliadau cyhoeddus hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal.

**Crynodeb o gynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru a phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol er mwyn amddiffyn pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb wrth i bobl heneiddio. Rhaid i hyn gael ei orfodi'n gadarn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Rhaid i Lywodraeth y DU gynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac annog cyrff cyhoeddus i

---

[3] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
[4] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
[5] Safonau'r Gymraeg
[6] Welsh language standards: Planning and Environment Decisions Wales | GOV.WALES
* There are over 120 public organisations required to implement Welsh language standards Safonau'r Gymraeg Accessed 17/11/2022
[7] 'Mae gen i Hawl' campaign (welshlanguagecommissioner.wales)
[8] Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
[9] Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol

ddefnyddio'r ddyletswydd er mwyn mynd i’r afael â heriau cymdeithas sy'n heneiddio, ac adnabod y cyfleoedd sydd ar gael.

- Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol ddiogelu'r hawliau a'r rhyddid a nodwyd yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac ni ddylai danseilio effeithiolrwydd neu gwmpas Deddf Hawliau Dynol 1998 na'r potensial i'w gorfodi ledled y DU.
- Rhaid i Lywodraeth y DU gynnal asesiad i nodi effaith unrhyw newidiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Mae angen ail-fframio'r ddadl ar hawliau dynol ar frys, gan bwysleisio'r amddiffyniad gwerthfawr y mae'n ei roi i bobl hŷn pan fyddant yn agored i niwed. Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r gymdeithas sifil roi blaenoriaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diogelu hawliau dynol, mewn perthynas â phobl hŷn.
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydliadau cymdeithas sifil geisio dylanwadu ar gyrff cyhoeddus i ystyried hawliau dynol wrth weithio, gan sicrhau bod eu holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu fframio gan gyfeirio at hawliau dynol.
- Wrth ystyried bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn annog Llywodraeth y DU i gadw deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol y DU.
- Rhaid i lywodraethau barhau i fod yn arweinwyr byd-eang wrth hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn trwy chwarae rhan gadarnhaol a gweithredol yng Ngweithgor Penagored y Cenhedloedd Unedig ar Heneiddio, gan annog datblygu adnoddau hawliau dynol newydd er mwyn amddiffyn hawliau pobl hŷn, gan gynnwys y posibilrwydd o gonfensiwn newydd.
- Mae ymchwil wedi sefydlu'n gadarn bod meithrin perthnasoedd agos, gonest a phersonol ag eraill sy'n cael eu hystyried fel aelodau o grŵp gwahanol yn ffordd bwerus o oresgyn rhagfarn. Felly, dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector gefnogi mentrau sy'n hyrwyddo mwy o gyswllt rhwng y cenedlaethau i frwydro yn erbyn rhagfarn sy'n gysylltiedig ag oedran.
- Rhaid herio diwydiant y cyfryngau i stopio stereoteipio pobl hŷn fel pobl gwan. Mae angen iddyn nhw arddangos pobl hŷn mewn ffordd gadarnhaol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth hŷn ac yn cydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud mewn termau economaidd a chymdeithasol gan gynnwys fel gweithwyr, gwirfoddolwyr a gofalwyr. Dylai'r Pwyllgor Golygyddion papur newydd ddiwygio ei God Ymarfer i ychwanegu gofyniad i osgoi cyfeiriadau rhagfarnol neu gamarweiniol at oedran person.
- Rhaid monitro ac asesu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn erbyn profiad cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyfiawnhad gwrthrychol dros gael terfynau oedran ar gyfer gwasanaethau sgrinio ar gyfer canser.
- Rhaid i Lywodraeth y DU ailystyried eithrio gwasanaethau ariannol o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran.
- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyflwyno'r achos dros gyflogi gweithwyr hŷn yn fwy effeithiol, gan gynnwys gwella ymwybyddiaeth o wahaniaethu ar sail oedran.

- Rhaid i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran ymhlith gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau cymorth, a sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol a'r gwaharddiad drwy ddarparu arweiniad a chymorth parhaus.
- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar-lein o ansawdd uchel ac yn hawdd i'w defnyddio. Mae'n rhaid bod gwasanaethau all-lein o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch, a rhaid sicrhau nad yw darparu gwybodaeth ar-lein yn golygu nad oes modd darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill.
- Gan gydnabod y lefelau uchel o wahaniaethu sy'n wynebu rhai grwpiau o bobl hŷn, yn enwedig menywod a phobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn y cyfryngau, yn y gweithle ac mewn bywyd cyhoeddus, dylid dwyn adran 14 o'r Ddeddf Cydraddoldeb i rym.
- Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymestyn amddiffyniadau'r Ddeddf Hawliau Dynol i bob person hŷn drwy sicrhau bod pob darparwr gwasanaethau gofal rheoledig yn cael eu hystyried yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf, waeth pwy sy'n ariannu'r gwasanaeth a ddarperir.
- Rhaid cefnogi pobl i wneud cymaint o benderfyniadau dros eu hunain â phosibl. Pam nad yw hynny'n bosib, rhaid gwneud penderfyniadau er budd gorau'r person hwnnw, a rhaid cadw at egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi i ddelio ag ôl-groniad ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid tan fod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y cynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau' yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhaid i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg barhau i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

**Gwahaniaethu, hawliau dynol a hawliau'r iaith Gymraeg**

Mae'r datganiad polisi hwn yn cynnwys:

- Deddfwriaeth a pholisi cyfredol
- Brexit
- Gweithgor penagored ar heneiddio
- Gwahaniaethu ar sail oedran
- Gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y gwasanaethau iechyd
- Gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y gwasanaethau ariannol
- Gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle
- Allgáu digidol
- Gwahaniaethu lluosog
- Hawliau dynol
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid / Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
- Codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn
- Gwasanaethau cyngor a chymorth
- Hawliau Cymraeg.

Sylwer: Mae cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn, mynediad at gyfiawnder a throseddau casineb yn cael eu cynnwys yn natganiad polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Ddiogelu pobl hŷn'. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael sylw yn natganiad polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Wybodaeth, Cyngor ac Eiriolaeth'.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

**Deddfwriaeth a pholisi cyfredol**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu set o adnoddau deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle ac wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Y prif feysydd lle mae gan y gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail oedran potensial i wella bywydau pobl hŷn yw'r maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r sector gwasanaethau ariannol wedi'i eithrio i raddau helaeth o'r gwaharddiad.

Er mwyn sicrhau cymdeithas fwy cyfartal, nid yw gwahardd gwahaniaethu yn ddigon. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010[10] yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas.

Yng Nghymru, cefnogir Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru.[11] Yn unol â'r rhain, mae awdurdodau

[10] Deddf Cydraddoldeb 2010. S 149. Equality Act 2010

[11] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 https://senedd.cymru/

cyhoeddus yng Nghymru yn cynhyrchu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn eu hamcanion cydraddoldeb yn flynyddol. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar sut mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.[12]

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw rheoleiddiwr Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n monitro gweithgarwch ar y ddyletswydd.[13] Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol er mwyn amddiffyn pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Rhaid i hyn gael ei orfodi'n gadarn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddeall anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio ac yn sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wnânt yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl hŷn.

Ym mis Mawrth 2021, dechreuodd Llywodraeth Cymru'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o dan Ran 1, adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau strategol gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol.[14] Mae'r ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.[15]

> Rydym yn bles iawn fod Llywodraeth Cymru'n cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, a byddwn yn edrych ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi yn elwa o'r mesur newydd hwn, yn enwedig yng nghanol yr argyfwng costau byw presennol.

Yng Nghymru, mae cyfleoedd i ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 ochr yn ochr â sbardunau deddfwriaethol a strategol eraill i greu cymdeithas fwy cyfartal i bobl hŷn.

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweledigaeth Cymdeithas sy'n heneiddio[16] yw Cymru sy'n ystyriol o oedran, Cymru sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw ac heneiddio'n dda - Cymru lle nad yw gwahaniaethu ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu derbyn. Mae'r Strategaeth yn nodi, 'yn y pen draw, hoffwn fod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag

---

[12] Annual reporting, publishing and Ministerial duties: A guide for listed public authorities in Wales https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/annual-reporting-publishing-and-ministerial-duties-guide-listed-public Accessed 29/09/22.

[13] Equality and Human Rights Commission. Our monitoring of the public sector equality duty in Wales. Updated 19 February 2019 https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/our-monitoring-public-sector-equality-duty-wales Accessed 29/09/22.

[14] Llywodraeth Cymru (2021) Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

[15] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

[16] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, cenedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas pobl hŷn bob amser'.[17]

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig) wedi bod o fudd mawr i bobl hŷn yn y DU, gan ehangu amddiffyniad cyfreithiol ac atgyfnerthu'r rhwymedïau sy'n bodoli pan fydd yr hawliau hyn yn cael eu torri. Mae deddfwriaeth hawliau dynol y DU yn cynnwys y Deyrnas Unedig gyfan ond mae gorfodaeth wedi'i datganoli.

Ers ei sefydlu, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi cael ei feirniadu am y canfyddiad ei fod yn rhoi gormod o hawliau i rai pobl, gan atal y wladwriaeth rhag cymryd camau rhesymol. Credwn fod y Ddeddf Hawliau Dynol eisoes yn ymgorffori cydbwysedd o hawliau a chyfrifoldebau a'i bod er budd gorau pobl hŷn i gynnal a chryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn darparu sylfaen gref er mwyn sicrhau nad yw hawliau pobl hŷn yn cael eu cam-drin a dylid eu gwella a'u cryfhau.

Mewn ymateb i'r safbwyntiau hyn, ymrwymodd Llywodraeth y DU ym maniffesto Etholiad Cyffredinol 2010 i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a rhoi Bil Hawliau Prydeinig yn ei le. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, cafodd y Bil Hawliau, i ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau dynol, ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ym mis Mehefin 2022.[18] Roedd Aelodau Seneddol fod i ystyried y Bil yn yr Ail Ddarlleniad ar 12 Medi 2022,[19] ond ar 7 Medi 2022 cafodd y Bil presennol ei roi o'r neilltu ac ystyriwyd ei fod yn annhebygol o symud ymlaen yn ei ffurf bresennol.[20]

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi bod o fudd i bobl hŷn yn y Deyrnas Unedig. Mae wedi ehangu amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer hawliau pobl hŷn ac yn helpu i ddiogelu eu hurddas a'u diogelwch ar adegau pan fyddant yn agored i niwed. Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi pwerau i bobl ymchwilio ac unioni unrhyw achosion o dorri'r hawliau hyn. Roeddem yn pryderu y byddai cynigion i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol gyda Mesur Hawliau yn gwanhau'r fframwaith sy'n amddiffyn hawliau pobl gyffredin, gan gynnwys pobl hŷn, yn ogystal â mecanweithiau allweddol i ymchwilio a datrys y toriadau hynny.[21] Credwn y dylid cynnal asesiad i nodi effaith unrhyw newidiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.[22]

Dyma enghreifftiau o'r materion sydd ynghlwm â hawliau dynol a wnaeth effeithio ar bobl hŷn yn ystod pandemig Covid-19:[23]

---

[17] Ibid.
[18] Senedd y DU (2022) Bill of Rights Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament
[19] Ibid.
[20] Bill of Rights: Liz Truss shelves plans to reform human rights law - BBC News
[21] Age UK (2022) Consultation response to Human Rights Reform: A Modern Bill of Rights Microsoft Word - Age UK_HRA reform consultation response final_March 2022
[22] Ibid.
[23] Age UK (2020) older-people-and-human-rights-during-the-covid-19-pandemic.pdf (ageuk.org.uk)

- defnyddio polisïau cyffredinol sy'n cael eu cymhwyso i bobl hŷn, gan gynnwys gorchmynion 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal
- Mynediad cyfyngedig i'r cymorth, y gofal a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen ar lawer o bobl hŷn i gynnal eu hiechyd a'u lles gyda'r heriau penodol sy'n wynebu pobl hŷn mewn lleoliadau preswyl, pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain a phobl hŷn sy'n derbyn gofal gartref.

Mae'n hanfodol bod hawliau dynol yn cael eu diogelu, a bod pobl hŷn yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer adferiad wedi'r pandemig.

Mae hawliau dynol wedi'u hymgorffori ar draws ystod eang o ddeddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gosod dyletswydd i roi 'sylw dyledus' i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth.[24] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys set o nodau llesiant sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni. Mae dau o'r amcanion yn cynnwys: 'Cymru fwy cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol', a 'Cymru o gymunedau cydlynol: cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chysylltiedig da'.[25]

Ym mis Ionawr 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. [26] Mae canfyddiadau'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod 'y dystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr ymchwil yn awgrymu anfodlonrwydd gyda'r ffordd dameidiog mae hawliau dynol yn cael eu hymgorffori yng Nghymru sydd hyd yma wedi'i gyfyngu i ymgorffori hawliau plant rhyngwladol a phobl anabl yn anuniongyrchol, ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig sy'n hyrwyddo buddiannau pobl hŷn. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yna gefnogaeth i ymgorffori mwy o hawliau dynol i fod yn rhan o gyfraith Cymru [..][27] Ymhlith nifer o argymhellion yr ymchwil oedd: 'Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i weithredu hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf Hawliau Dynol (Cymru) i wneud hawliau dynol rhyngwladol dethol yn rhan o gyfraith Cymru fel eu bod yn rhwymo Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau datganoledig, a bod modd eu gorfodi gan lys neu dribiwnlys'; a 'Dylai Llywodraeth Cymru barhau i archwilio opsiynau ar gyfer ymgorffori hawliau dynol rhyngwladol drwy ddeddfwriaeth sectorol, gyda ffocws penodol ar [...], ac ar bobl hŷn, [...]. Ni ddylai mynd ar drywydd deddfwriaeth hawliau dynol cyffredinol danseilio neu ohirio'r ymdrechion hyn'[28]

---

[24] Diwygio'r ddeddf hawliau dynol: mesur hawliau modern
[25] Welsh Government (2015) Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. The Essentials. https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf
[26] Llywodraeth Cymru (2021) Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru
[27] Llywodraeth Cymru (2021) Adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru
[28]Ibid.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwil a gomisiynwyd yn cynnwys '[...] Mae gweinidogion wedi dweud y dylai dull cyfannol fel Bil Hawliau Dynol Cymru barhau dan ystyriaeth ac y dylai opsiynau eraill, gan gynnwys mewn perthynas â hawliau pobl hŷn a hawliau plant, hefyd gael eu hystyried'.[29]

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi ymrwymo i ddatblygu 'Dull Hawliau Dynol' mewn perthynas â hawliau pobl hŷn.[30] Mae'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio[31] yn mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ar draws ystod o feysydd polisi,[32] ac mae'n hanfodol bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu i gynyddu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu eu harfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ganllaw, Gwneud i hawliau weithio i bobl hŷn - canllaw i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol; a Gwneud i hawliau weithio i bobl hŷn - canllaw i bobl hŷn, ac mae wedi ariannu Age Cymru i weithio gyda grwpiau pobl hŷn i godi ymwybyddiaeth o hawliau.[33, 34]

## Cynigion polisi cyhoeddus

- Rhaid i Lywodraeth Cymru a phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithiol i amddiffyn pobl hŷn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Rhaid i hyn gael ei orfodi'n gadarn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran wrth i bobl ddefnyddio gwasanaethau a chynorthwyo darparwyr gwasanaethau i weithredu trwy ddarparu arweiniad a chymorth parhaus.
- Rhaid i Lywodraeth y DU gadw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r ddyletswydd wrth ymateb i heriau a chymryd mantais o’r cyfleoedd mae cymdeithas sy’n heneiddio yn eu cynnig.
- Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol yn y dyfodol ddiogelu hawliau a rhyddid yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac ni ddylai danseilio effeithiolrwydd neu gwmpas Deddf Hawliau Dynol 1998 na'r potensial i'w gorfodi ledled y DU.

---

29 Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru,
30 Ibid.
31 Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
32 Ibid.
33 Age Cymru. Prosiect Hawliau Dynol Prosiect Hawliau Dynol ¦ Age Cymru (ageuk.org.uk)
34 Adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru ,

- Rhaid i Lywodraeth y DU gynnal asesiad er mwyn nodi effaith unrhyw newidiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Mae angen ail-fframio'r ddadl ar hawliau dynol ar frys, gan bwysleisio'r amddiffyniad gwerthfawr y mae'n ei roi i bobl hŷn pan fyddant yn agored i niwed. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r gymdeithas sifil roi blaenoriaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diogelu hawliau dynol, mewn perthynas â phobl hŷn.
- Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydliadau cymdeithas sifil i gyd geisio dylanwadu ar gyrff cyhoeddus, a'u hannog i gymryd agwedd ar sail hawliau dynol tuag at eu gwaith, gan sicrhau bod eu holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu fframio gan gyfeirio at hawliau dynol.

**Brexit**

Ni fydd ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio'n awtomatig ar statws y Deyrnas Unedig fel llofnodwr y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gytundeb rhyngwladol sy'n wahanol i Gytuniadau'r Undeb Ewropeaidd a Siarter yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol.

Mae dinasyddion y Deyrnas Unedig yn dal i allu dibynnu ar eu hawliau fel y nodwyd yng Nghonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn llysoedd domestig a gallant ddal i fynd ag achosion i Lys Hawliau Dynol Ewrop. Yn ogystal, maent yn cael eu diogelu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Fodd bynnag, ni fyddant bellach yn gallu dibynnu ar y Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd sydd yn benodol yn cynnwys llawer o hawliau cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis yr hawliau i amodau gwaith teg a chyfiawn, gofal iechyd a diogelu data personol.[35]

**Cynnig polisi cyhoeddus**

- Oherwydd bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gadw deddfwriaeth cydraddoldeb bresennol y Deyrnas Unedig.

**Gweithgor Penagored ar Heneiddio**

O dan fandad gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, mae'r Gweithgor Penagored ar Heneiddio wedi bod yn ystyried sut i gryfhau amddiffyniad hawliau dynol pobl hŷn. Mae ganddo fandad i archwilio'r fframwaith rhyngwladol presennol mewn perthynas â hawliau dynol pobl hŷn, ac i nodi bylchau posibl a'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys trwy ystyried y posibilrwydd o Gonfensiwn newydd ar hawliau pobl hŷn.

---

[35] Age UK (2020) Human Rights, United Kingdom. Policy Position Paper human-rights-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)

Mae Age Cymru, Age UK ac Age International yn credu y byddai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn yn darparu fframwaith ac yn llywio ymatebion polisi i heneiddio yn seiliedig ar hawliau, tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae potensial hefyd i greu newid ar gyfer pobl hŷn sy'n cael eu hystyried fel pobl oddefol sydd angen cefnogaeth, a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel grŵp o bobl sydd â hawliau gweithredol er mwyn lleihau'r nifer o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, sy'n dioddef esgeulustod a gwahaniaethu.

**Cynnig polisi cyhoeddus**

- Rhaid i lywodraethau barhau i fod yn arweinwyr byd-eang wrth hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn trwy chwarae rhan gadarnhaol a gweithredol yng Ngweithgor Penagored y Cenhedloedd Unedig ar Heneiddio, gan annog datblygu adnoddau hawliau dynol newydd er mwyn amddiffyn hawliau pobl hŷn, gan gynnwys y posibilrwydd o gonfensiwn newydd.

**Gwahaniaethu ar sail oedran**

Dylai pawb fedru byw gydag urddas a pharch. Mae pobl hŷn yn aelodau cyfartal o gymdeithas ac ni ddylent ddioddef gwahaniaethu ar sail oedran, stereoteipio neu ymddygiad rhagfarnllyd. Mae agweddau negyddol tuag at bobl hŷn a heneiddio yn dreiddiol yn ein cymdeithas. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o fathau eraill o wahaniaethu, mae gwahaniaethu ar sail oedran yn seiliedig ar stereoteipiau anghywir. Canfu adroddiad yn 2018 gan y Gymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus fod agweddau rhagfarnllyd yn bodoli ar draws cenedlaethau, gan effeithio ar ein hiechyd a'n lles.[36]

Mae'r agweddau rhagfarnllyd hyn yn cael eu hadlewyrchu a'u hysbysebu gan y cyfryngau. Mae pobl hŷn yn tueddu i 'ddiflannu' o ymgyrchoedd hysbysebu, papurau newydd a sgriniau teledu - ac mae hyn yn duedd sy'n effeithio'n arbennig ar fenywod hŷn. Yn ei ymchwiliad i Ddiwylliant, Moeseg ac Ymarferion y Wasg, mynegodd yr Arglwydd Ustus Leveson bryderon bod cynrychiolaeth, o leiaf mewn rhai rhannau o'r diwydiant, yn wahaniaethol ac yn annoeth. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o bobl hŷn a amlygwyd yn adroddiad Ofcom yn 2019 'Adroddiad Monitro Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal ar y Teledu'.[37]

Yn y cyd-destun hwn, mae'n destun pryder nad yw Cod Ymarfer y Golygyddion ar hyn o bryd yn cynnwys gofyniad i osgoi cyfeiriadau rhagfarnol neu gosbol at oedran person. Rhaid i ddarlledwyr weithredu i gael gwared ar eu hallbwn o gyfeiriadau rhagfarnol neu gosbol at bobl hŷn ac i gyflwyno delwedd fwy cadarnhaol o heneiddio wrth wneud a darlledu rhaglenni. [38]

---

[36] Cymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus, That Age Old Question, Llundain, 2018, dyfynnwyd ym mhapur sefyllfa polisi Age UK (2020). Ageism and Age Equality (Great Britain) ageism-and-age-equality-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)
[37] Papur sefyllfa polisi Age UK (2020). Ageism and Age Equality (Great Britain) ageism-and-age-equality-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)
[38] Ibid.

Yng Nghymru, mae astudiaethau ymchwil diweddar gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi bod 8% o bobl 60+ oed yng Nghymru wedi profi gwahaniaethu a oedd yn gysylltiedig â'u hoedran mewn rhyw ffordd; Dywed un o bob pump o bobl hŷn (21%) na fyddent yn hyderus wrth nodi achosion o wahaniaethu. [39]

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Mae ymchwil wedi sefydlu bod meithrin perthnasoedd agos, gonest a phersonol ag eraill sy'n cael eu hystyried yn perthyn i grŵp gwahanol yn ffordd bwerus o oresgyn rhagfarn. Felly, dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector gefnogi mentrau sy'n hyrwyddo mwy o gyswllt rhwng y cenedlaethau i frwydro yn erbyn rhagfarn yn ymwneud ag oedran.
- Rhaid herio diwydiant y cyfryngau i gael gwared ar stereoteipiau negyddol o bobl hŷn fel pobl goddefol a dibynnol. Mae angen iddyn nhw ddefnyddio delweddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth hŷn ac yn cydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud mewn termau economaidd a chymdeithasol gan gynnwys fel gweithwyr, gwirfoddolwyr a gofalwyr. Dylai'r Pwyllgor Golygyddion papur newydd ddiwygio ei God Ymarfer i ychwanegu gofyniad i osgoi cyfeiriadau rhagfarnol neu gamarweiniol at oedran person.

**Gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y gwasanaethau iechyd**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gwaharddiad llwyr ar wahaniaethu ar sail oedran o fewn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol heb unrhyw eithriadau. Er y gall sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol barhau i drin pobl yn wahanol oherwydd eu hoedran, bydd angen iddynt ddangos bod rheswm da (cyfiawnhad gwrthrychol) dros y driniaeth wahanol honno os cânt eu herio.

Yng Nghymru, dangosodd astudiaeth ymchwil ddiweddar gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod 8% o bobl hŷn yng Nghymru yn dweud eu bod wedi cael eu gwneud i deimlo'n rhy hen i dderbyn gwasanaethau iechyd.[40]

Mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n cael diagnosis o ganser y fron dros 50 oed.[41] Fodd bynnag, nid yw menywod dros 70 oed yng Nghymru yn cael eu galw'n awtomatig am brawf sgrinio canser y fron; yn hytrach, mae angen iddynt hunangyfeirio. I fenywod dros 70 oed, mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r risg yn gwaethygu gan ddiffyg ymwybyddiaeth o'r hawl a'r angen i gyfeirio eu hunain.

Credwn y dylid dileu'r terfyn oedran uchaf hwn, a bod angen codi ymwybyddiaeth o risg canser y fron i fenywod dros 70 oed. Mae ein hymchwil wedi dangos bod y cyhoedd yn gefnogol: mae 83% o bobl yng Nghymru yn credu y dylid gwahodd menywod i

---

[39] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022) Deall Poblogaeth Cymru sy'n Heneiddio: Ystadegau Allweddol
[40] Ibid.
[41] Canser y fron, mewn menywod (29/09/22)

apwyntiadau sgrinio canser y fron wedi iddynt droi'n 70 oed.[42] Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyfiawnhad gwrthrychol dros gael cyfyngiadau oedran ar gyfer gwasanaethau sgrinio ar gyfer canser, gan gynnwys canser y fron a chanser y coluddyn.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid monitro ac asesu gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn erbyn profiad cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddileu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer profion sgrinio canser y fron.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyfiawnhad gwrthrychol dros gael terfynau oedran ar wasanaethau sgrinio ar gyfer canser.

**Gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y gwasanaethau ariannol**

Mae'n parhau i fod yn bryder mawr y gallai eithriad eang ar gyfer gwasanaethau ariannol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gyfyngu mynediad pobl hŷn at adnoddau hanfodol gan gynnwys benthyciadau, morgeisi ac yswiriant, gan ei gwneud yn anoddach i bobl hŷn ddod o hyd i'r cynhyrchion gorau.[43] Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol wedi nodi nifer o achosion lle mae pobl hŷn wedi cael anawsterau wrth symud adref,  talu eu morgeisi a benthyca ychwanegol oherwydd cyfyngiadau sy'n defnyddio'r gwasanaethau ariannol hyn.[44] Mae system gyfeirio yn bodoli ar gyfer yswiriant teithio a modur, ond does dim byd tebyg ar gyfer benthyca.[45]

**Cynnig polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth y DU ailystyried yr eithriad gwasanaethau ariannol o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran.

**Gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle**

Er bod llawer o bobl hŷn yn parhau i fwynhau gyrfaoedd boddhaus, mae eraill yn wynebu gwahaniaethu ac yn teimlo nad ydynt yn gallu parhau yn eu swydd neu ddod o hyd i gyflogaeth newydd. Mae hyn yn gwastraffu sgiliau ar adeg pan fo llawer o sectorau'n profi prinder sgiliau.  Mae'n cael effaith ddinistriol ar yr unigolyn mewn perthynas â chyllid personol, iechyd a hunan-barch. Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle yn anghyfreithlon a diddymwyd yr oedran ymddeol diofyn yn 2011. Fodd bynnag, mae canfyddiadau a stereoteipiau gweithwyr hŷn - negyddol fel arfer – yn dal i barhau ac mae'n bwysig eu herio. Mae sicrhau nad yw gweithwyr hŷn yn cael eu gorfodi

[42] ICM (2012) Arolwg Barn Age Cymru, Mawrth 2012.
[43] Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Access in Financial Services in the UK 2016
[44] Just a number? age, complaints and the ombudsman, Financial Services Ombudsman, Tachwed 2015
[45] Papur sefyllfa polisi Age UK (2020). Ageism and Age Equality (Prydain Fawr)  ageism-and-age-equality-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)

allan o'r farchnad lafur a darparu cefnogaeth briodol i'r rhai sy'n ddi-waith, yn hanfodol bwysig[46], gan ddod yn fwy pwysig o ganlyniad i'r ffordd mae'r ddemograffig yn newid, ac wrth i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu.

Credwn y dylai pawb allu parhau i weithio cyhyd ag y dymunant, ac na ddylai unrhyw un fod dan anfantais oherwydd eu hoedran. Mae mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn rhan hanfodol o wella'r byd gwaith. Rydym yn croesawu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio,[47] sy'n tynnu sylw at: 'Os yw Cymru am gael gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol, rhaid i gyflogwyr ystyried goblygiadau iechyd a gofal y newid demograffig hwn a nodi ffyrdd o greu gweithleoedd sy'n cefnogi pobl hŷn, sy'n brwydro yn erbyn stereoteipiau rhagfarnllyd am weithwyr hŷn'.

Mae tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle yn effeithio ar tua 12% o weithwyr hŷn yng Nghymru.[48] Ar sail ystadegau Cymru mae ychydig dros 316,000 o bobl 50-64 oed mewn cyflogaeth yng Nghymru.  Mae hyn yn golygu bod bron i 38,000 o weithwyr hŷn yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn llai ffafriol yn y gwaith oherwydd eu hoedran.[49]

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu set o adnoddau deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y byd gwaith ac wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, o ran cyflogaeth, mae gwahaniaethu ar sail oedran heb gyfiawnhad yn dal i fod yn rhemp, er ei fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Canfu arolwg barn gan YouGov a gomisiynwyd gan Age UK yn 2017 fod 36% o bobl dros 50 oed yn teimlo eu bod wedi bod dan anfantais yn y gwaith oherwydd eu hoedran.

Mae cynyddu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar dybiaeth y bydd pobl yn gallu gweithio am fwy o amser, oherwydd bod disgwyliad oes yn cynyddu. I rai, mae hwn yn ddewis cadarnhaol yn seiliedig ar awydd i barhau i weithio tra bod eraill yn teimlo na allant ymddeol am resymau ariannol.
Ymdrinnir â chyflogaeth yn fanylach yn sefyllfa polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Gyflogaeth a chyfraniad', a

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyflwyno'r achos dros gyflogi gweithwyr hŷn yn fwy effeithiol, gan gynnwys gwella ymwybyddiaeth o wahaniaethu ar sail oedran.
- Rhaid i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ar wahaniaethu niweidiol ar sail oedran o fewn gwasanaethau ac ymhlith darparwyr

[46] See: Age Cymru (2021/2) EnvisAGE: Sbotolau ar gyflogaeth a phobl hŷn. EnvisAGE
[47] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
[48] Age Cymru (2021/22). EnvisAGE EnvisAGE: Sbotolau ar gyflogaeth a phobl hŷn Envisage
[49] Ibid.

gwasanaethau cymorth, a bod angen iddyn nhw weithredu drwy ddarparu arweiniad a chymorth parhaus.

## Allgáu digidol

Mae technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau i bobl hŷn. Gall sgiliau digidol alluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau ar-lein ac aros yn gysylltiedig. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall defnydd o'r rhyngrwyd helpu pobl hŷn i frwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol.[50]

Fodd bynnag, mae allgáu digidol yn her fawr i bobl hŷn. Gan fod mwy o wybodaeth a gwasanaethau ar gael ar-lein yn bennaf neu'n unig, mae risgiau gwirioneddol o eithrio pobl hŷn. Gall technoleg gynnig mynediad hanfodol at wybodaeth a chyngor i bobl hŷn ond mae mynediad a defnydd yn parhau i fod yn isel ymhlith grwpiau oedran hŷn.

Mae pobl hŷn wedi sôn am y disgwyliad cynyddol gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth bod gan bawb ffôn clyfar a mynediad i'r rhyngrwyd. Mae pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ar-lein, ac nid oes unrhyw fformatau amgen yn cael eu cynnig. Teimlwyd y dylid parchu dewisiadau pobl. Mynegwyd pryder ynghylch symud i brosesau bancio a diogelwch ar-lein gan fod llawer o ganghennau banc lleol wedi cau. Gall tocynnau ar-lein ar gyfer digwyddiadau fod yn rhwystr i bobl nad oes ganddynt ffonau clyfar. Yn nhrydydd arolwg Covid cenedlaethol Age Cymru, soniodd nifer o bobl am y broses o gael mynediad at feddygfeydd ac apwyntiadau - rhannodd pobl eu rhwystredigaeth nad oedden nhw'n gallu sicrhau apwyntiadau ar-lein na mynychu systemau archebu gan nad oedd ganddyn nhw gyfrifiadur.[51]

Mae adroddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos nad oes gan 31% o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngrwyd gartref ac nad yw 33% o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd (gan gynnwys Teledu Clyfar a dyfeisiau llaw), o'i gymharu â 13% o bobl rhwng 65-74 a 0% o bobl rhwng 25-44.[52] Mae pobl hŷn yn llawer llai tebygol o fod wedi cyflawni 5 sgil digidol o'i gymharu â grwpiau oedran eraill - 36% o bobl dros 75 oed a 58% o bobl rhwng 65-74 oed, o'i gymharu â 79% o bobl rhwng 45-64 oed, 87% o bobl rhwng 25-44 oed ac 89% o bobl ifanc rhwng 16-24 oed.[53]

O ran mynediad at wasanaethau, canfyddiad allweddol o adroddiad 'Is Wales Fairer' gan Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018 yw wrth i ddigideiddio gwasanaethau a chyfathrebu gynyddu, mae pobl hŷn, pobl anabl, heb gymwysterau,

---

[50] Age UK (2013) Digital inclusion evidence review. https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/active-communities/rb_sept13_age_uk_digital_inclusion_evidence_review.pdf
[51] Age Cymru (2022) age-cymru---report-on-the-current-experiences-of-people-aged-50-or-over-across-wales-of-the-covid-19-pandemic-and-views-on-the-year-ahead---june-2022.pdf (ageuk.org.uk)
[52] Llywodraeth Cymru (2022) Arolwg cenedlaethol Cymru, Ebrill – Mehefin 2021. Ar gael yma: Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau Dyfynnwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2022) Deall Poblogaeth Cymru sy'n Heneiddio: Ystadegau Allweddol
[53] Ibid.

neu fyw mewn tai cymdeithasol yn parhau i fod yn ffactorau risg ar gyfer allgáu digidol, er bod defnydd o'r rhyngrwyd yn gwella ymhlith pobl hŷn.[54]

Nid yw llawer o bobl hŷn ar incwm isel yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt ac a allai wneud bywyd ychydig yn haws. I rywun nad yw'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sydd erioed wedi defnyddio cyfrifiadur neu lechen, mae gorfod mynd ar-lein er mwyn hawlio yn debygol o fod yn rhwystr sylweddol. Mae gan gynghorau lleol, fel cyrff cyhoeddus eraill, amrywiaeth o gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb o fewn eu penderfyniadau a'u polisïau.

Mae llyfrgelloedd yn lleoedd lle gall pobl hŷn gael mynediad at dechnoleg gyfrifiadurol a dysgu sgiliau newydd, felly mae ganddyn nhw, ochr yn ochr â chyfleusterau addysgol lleol eraill, rôl bwysig wrth hyrwyddo cynhwysiant digidol a dysgu gydol oes.

Mae'n rhaid cefnogi ac annog pobl hŷn i ennill sgiliau digidol a mynd ar-lein os ydyn nhw'n gallu, ac yn gallu fforddio gwneud hynny. Dylai'r rhai na allant neu nad ydynt am wneud hynny barhau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth mewn ffordd sy'n gweddu orau iddynt. Mae angen i'r gwasanaethau a ddarperir ar-lein fod o ansawdd uchel ac yn hawdd eu defnyddio, tra dylai gwasanaethau all-lein fod o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth mewn sawl fformat, nid dim ond trwy ddulliau ar-lein.

### Cynnig polisi cyhoeddus

- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar-lein o ansawdd uchel ac yn hawdd eu defnyddio, tra bod rhaid i wasanaethau all-lein fod o ansawdd cyfartal ac yn gwbl hygyrch. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth mewn sawl fformat, nid dim ond trwy ddulliau ar-lein.

### Gwahaniaethu lluosog

Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn cynnwys mathau eraill o wahaniaethu. Mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn profi anfantais a thlodi lluosog o ganlyniad. Mae adran 14 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaeth 'gwahaniaethu deuol' i gynnwys gwahaniaethu uniongyrchol ar hyd at ddwy sail gyfun. Fodd bynnag, ni chafodd yr adran erioed ei deddfu.[55]

### Cynnig polisi cyhoeddus

---

[54] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) Is Wales Fairer? The state of equality and human rights 2018. https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf

[55] Age UK (2020) Papur Sefyllfa Polisi. Gwahaniaethu ar sail oedran a chydraddoldeb oedran (Prydain Fawr) ageism-and-age-equality-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)

- Gan gydnabod y lefelau uchel o wahaniaethu lluosog a wynebir gan rai grwpiau o bobl hŷn, yn enwedig menywod, a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hŷn, dylid dwyn adran 14 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym.

**Hawliau dynol**

Mae safonau hawliau dynol yn darparu amddiffyniad hanfodol i bobl hŷn trwy helpu i newid gweithdrefn, diwylliant ac agweddau, a chynnig iawndal pan fydd achosion o dorri hawliau dynol wedi digwydd.

Mae hawliau dynol llawer o bobl hŷn yn cael eu hanwybyddu.  Gall hyn ddigwydd oherwydd camdriniaeth a thriniaeth ddiraddiol; mae eu rhyddid yn cael ei gyfyngu mewn sefydliad sy'n darparu gofal cymdeithasol; colli ymreolaeth; nid yw eu bywyd teuluol a phreifat yn cael ei ddiogelu; a gwahaniaethu. Yn aml, nid yw'r toriadau hawliau dynol hyn yn cael eu cydnabod felly. Er enghraifft, os nad yw unigolyn yn cael help addas wrth iddynt geisio bwyta neu yfed, mae hynny'n mynd yn groes i'w hawl i fod yn rhydd o driniaeth annynol neu ddiraddiol; Roedd cadw aelodau cenhedlaeth Windrush yn y ddalfa a'u halltudio yn groes i'w hawl i ryddid a'u hawl i fywyd teuluol.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi bod o fudd mawr i bobl hŷn yn y DU, gan ehangu amddiffyniad cyfreithiol ac atgyfnerthu'r prosesau cywiro sy'n bodoli pan fydd yr hawliau hyn yn cael eu torri. Mae tystiolaeth yn dangos ei fod yn helpu i ddiogelu urddas a diogelwch pobl hŷn ar adegau pan fyddant yn agored i niwed ac yn ddibynnol iawn ar wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, ar sawl achlysur mae preswylwyr wedi llwyddo i herio'r broses o gau cartrefi gofal ar y sail nad yw'r awdurdod lleol wedi ystyried sut y byddai eu hawl i fywyd neu hawl i barch at fywyd preifat yn cael ei effeithio.[56] Mae'r Ddeddf hefyd wedi ei gwneud hi'n haws i aelodau'r cyhoedd herio triniaeth wael a herio sefyllfaoedd pan mae eu hawliau dynol yn cael eu torri heb orfod dwyn achos i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbwrg.[57]

Fodd bynnag, mae llawer o bobl hŷn nad ydynt mewn sefyllfa i herio awdurdodau cyhoeddus o dan y Ddeddf Hawliau Dynol wrth iddynt wynebu sawl rhwystr rhag gwneud hynny, gan gynnwys salwch meddyliol a chorfforol, ac ofn sgil-effeithiau. Gallai awdurdodau cyhoeddus fod yn gwneud llawer mwy i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol i weithredu'n ataliol, trwy fabwysiadu fframweithiau hawliau dynol a sicrhau bod y systemau cywir ar waith.

Mae gweithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithiol er mwyn amddiffyn pobl hŷn yn broses anghyson ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd diffyg ymwybyddiaeth. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl hŷn yn deall eu hawliau a'u bod yn gallu eu gweithredu, a bod staff mewn sefydliadau sy'n rhyngweithio â phobl hŷn yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod sut maent yn berthnasol yn ymarferol.

Mae'n parhau i fod yn fater o bryder difrifol ledled y DU nad yw pob person hŷn yn cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Dynol. Nid yw defnyddwyr gwasanaethau gofal

[56] Papur sefyllfa polisi Age UK (2020): Hawliau dynol. Y Deyrnas Unedig human-rights-feb-2020.pdf (ageuk.org.uk)

[57] Age UK (2022) Ymateb i Ymgynghoriad Diwygio Hawliau Dynol: Deddf Hawliau Modern  Microsoft Word - Age UK_HRA reform consultation response final_March 2022

rheoledig sy'n talu am eu gofal eu hunain yn cael eu cynnwys (oni bai bod eu gofal wedi'i drefnu gan awdurdod lleol).

**Cynnig polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymestyn amddiffyniadau'r Ddeddf Hawliau Dynol i bob person hŷn drwy sicrhau bod pob darparwr gwasanaethau gofal rheoledig yn cael eu hystyried yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf, waeth pwy sy'n ariannu'r gwasanaeth a ddarperir.

**Trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid / Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

Mae Trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn gymwys o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005,[58] ac mae eu hangen os bydd cyfyngiadau neu ataliadau a ddefnyddir ar berson yn amddifadu'r person hwnnw o'i ryddid, a gallai camddefnyddio'r mesurau diogelu gael effaith negyddol ar allu unigolyn i arfer rheolaeth dros ei ofal ei hun. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Trefniadau rhag Colli Rhyddid ar gyfer sefyllfaoedd lle gall pobl heb allu gael eu hamddifadu o'u hawl i ryddid, ac o ganlyniad gael eu cyfyngu i ysbyty neu gartref gofal. Mae'n rhaid i gartrefi gofal ac ysbytai geisio awdurdodiad os ydynt yn ystyried amddifadu person o ryddid, neu os oes rhaid iddynt wneud hynny.[59]

Os nad oes gan berson hŷn alluedd meddyliol i wneud rhai penderfyniadau, nid oes ganddyn nhw lawer o lais ac maent ymhlith y grwpiau sydd wedi'u heithrio fwyaf mewn cymdeithas. Yn rhy aml, maent yn cael eu hamddifadu o'u hawliau dynol i ryddid, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth.[60]

I ormod o bobl hŷn nad oes ganddynt alluedd meddyliol, mae gofal neu driniaeth gyfyngol yn cael ei ddefnyddio fel mesur cyntaf yn hytrach nag fel dewis olaf. Mae llawer o bobl hŷn yn cael eu hamddifadu'n anghyfreithlon o'u rhyddid mewn lleoliadau gofal ac iechyd trwy gamddefnyddio mesurau sydd ar gael o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.[61]

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymgynghori'n ddiweddar [62] ar newidiadau i God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol

---

[58] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) Is Wales Fairer? The state of equality and human rights 2018. https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf

[59] Papur sefyllfa polisi Age UK (2016): Mental Capacity (Lloegr a Chymru). Ebrill 2016. http://www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/For-professionals/Policy/health-and-wellbeing/ppp_mental_capacity_England_and_Wales.pdf?dtrk=true

[60] Papur sefyllfa polisi Age UK (2016) : Mental Capacity (Lloegr a Chymru). Ebrill 2016.

[61] Age UK (2018) Ymateb i ymgynghoriad. UK Torture review. https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/consultation-responses-and-submissions/equality-and-human-rights/age_uk_submission_to_cat_review_november_2018.pdf

[62] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022) Changes to the MCA Code of Practice and implementation of the LPS - GOV.UK (www.gov.uk)

2005, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, gan gynnwys canllawiau ar Fesurau Diogelu Rhyddid a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys rheoliadau drafft sy'n ymwneud â'r Mesurau Diogelu Rhyddid. [63]

Ar y cyfan, rydym yn croesawu'r newidiadau i God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a chyflwyno'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Credwn y bydd agweddau ar y Trefniadau Diogelu Rhyddid yn gwella canlyniadau i bobl hŷn ac rydym yn bles y bydd yna ddiffiniad o amddifadu o ryddid yng Nghod Ymarfer drafft y Ddeddf Galluedd Meddyliol.[64]

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Drafft i Gymru: Diogelu Rhyddid.[65] Yn benodol, rydym yn croesawu:

- y pwyslais ar y person yw canolbwynt y broses o wneud penderfyniadau a chynyddu cyfranogiad, llais a rheolaeth.
- cymhwyso'r fframwaith i bob lleoliad lle gall person hŷn dderbyn gofal neu driniaeth, a fydd, gobeithio, yn darparu gwell mynediad at fesurau diogelu i'r rhai sy'n derbyn gofal neu driniaeth y tu allan i gartref gofal neu ysbyty nag sy'n digwydd o dan y fframwaith presennol. Er enghraifft, y rhai sy'n derbyn gwasanaethau 'ysbyty gartref'.
- y disgwyliad y dylid integreiddio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid â phrosesau gofal neu driniaeth arall y gallai'r person hŷn fod yn ddarostyngedig iddynt, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch y prosesau arfaethedig ynghylch gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru, yn enwedig yr oedi presennol yn y system trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a allai atal y system newydd rhag cyflawni gwelliannau yn y tymor byr.

Yn benodol, gallai'r oedi presennol yn y system trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid atal y system newydd rhag cyflawni gwelliannau yn y tymor byr. Mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar Fesurau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer 20/21[66] yn dangos bod 55% o geisiadau safonol a 51% o geisiadau brys gan fyrddau iechyd wedi cymryd mwy na 28 diwrnod i'w prosesu. O ran awdurdodau lleol, roedd y ffigyrau yn 85% a 64% yn y drefn honno. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 32% o asesiadau yn dal i gael eu prosesu.

Bydd yr ôl-groniad presennol mewn ceisiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn dal i fod yno unwaith y bydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn cael eu cyflwyno, oni bai bod camau'n cael eu cymryd ymlaen llaw i fynd i'r afael â'r mater hwn.

[63] Age UK (2022) consultation-response-changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps-ministry-of-justice.pdf (ageuk.org.uk)
[64] Ibid.
[65] Llywodraeth Cymru (2022) Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
[66] Arolygiaeth Gofal Cymru & Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid 2020-21 Adolygiad cenedlaethol o ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru 2022 - 2023

Oni bai bod yr ôl-groniad yn cael sylw, bydd y system newydd ar ei hôl hi o'r eiliad y caiff ei gweithredu.
Mae'n hanfodol bod y fframwaith newydd yn arwain at welliant sylweddol mewn ceisiadau prosesu, gan fod adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru a Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi canfod ei bod yn cymryd gormod o amser i brosesu ceisiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, gan awgrymu nad oedd cyrff goruchwylio yn gallu sicrhau eu hunain nad oedd hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.[67] Mae angen cynllun ar sut y gellir mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Dylai hyn ystyried nifer y Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid cefnogi pobl i wneud cymaint o benderfyniadau drostynt eu hunain â phosibl, a lle na allant wneud hynny, rhaid gwneud penderfyniadau er budd gorau'r person hwnnw, a rhaid cadw at egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi i ddelio ag ôl-groniad ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid nes i'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ddod i rym.

**Codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn**

Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau ac yn cael eu cefnogi i'w harfer, a'u bod hefyd yn ymwybodol pan fydd eu hawliau wedi'u torri. Mewn llawer o feysydd cymdeithas fel iechyd a gofal cymdeithasol ac wrth lunio ein cymunedau lleol, nid yn unig y mae hawliau pobl hŷn yn aml yn cael eu hanwybyddu, ond nid yw llawer o bobl hŷn chwaith yn ymwybodol o'u hawliau. Credwn fod angen gwaith o ran diwylliant ac ymarfer i hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn.

Rydym yn croesawu dull gweithredu seiliedig ar hawliau Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio[68] a'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn. Mae'n hanfodol bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu i gynyddu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ganllaw: Gwneud i hawliau weithio i bobl hŷn - canllaw i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol; a Gwneud i hawliau weithio i bobl hŷn - canllaw i bobl hŷn.

Ariannwyd Age Cymru o fis Ionawr i fis Gorffennaf 2022 i gyflawni prosiect hawliau dynol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Diben y prosiect hwn oedd codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol, ac ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru i ymgorffori'r

---

[67] Ibid.
[68] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

neges bod pobl hŷn yn ddinasyddion ac yn gyfranogwyr mewn cymdeithas, a ddylai ddisgwyl cynnal eu hawliau dynol.[69, 70]

Creodd y prosiect ffilm animeiddiedig fer 'Don't Get Me Started' sy'n cyfweld pobl hŷn ledled Cymru, gan ganiatáu iddynt archwilio materion sy'n bwysig iddyn nhw,[71] a datblygu pecyn cymorth eiriolaeth (gweler isod)[72] .

### Gwasanaethau cyngor a chymorth

Mae gan y Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb linell gymorth sy'n cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol.[73]

Mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn ffordd bwysig o roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl i gael eu clywed, ac i gynnal eu hawliau a hyrwyddo cydraddoldeb. Rhaid i leisiau pobl hŷn gael eu clywed. Mae anhawster i ffurfio eich barn a'ch dymuniadau eich hun yn rhwystr mawr wrth i bobl geisio arfer eu hawliau. Gall gwasanaethau eiriolaeth annibynnol chwarae rhan bwysig trwy helpu pobl i gael llais ac adennill rheolaeth mewn sefyllfaoedd anodd, a gallant helpu i sicrhau eu hawliau a chynrychioli eu buddiannau. Rhaid i wasanaethau eiriolaeth fod ar gael i bawb sydd eu hangen.

Datblygodd prosiect hawliau dynol Age Cymru, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, becyn cymorth[74] eiriolaeth i'w ddefnyddio gan bobl hŷn ac unrhyw un sy'n eirioli ar ran pobl hŷn, i helpu i gefnogi trafodaethau gwybodus ynghylch hawliau dynol mewn sgyrsiau am iechyd, gofal cymdeithasol a thai.

Mae gwasanaethau eirioli, ynghyd â gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, yn cael eu cynnwys yn fanylach yn natganiad polisi cyhoeddus Age Cymru ar 'Wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth'.

### Hawliau'r iaith Gymraeg

Mae Cymraeg 2050 yn nodi strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yna filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.[75]

---

[69] Age Cymru. Prosiect Hawliau Dynol Prosiect Hawliau Dynol
[70] Welsh Government Strengthening and Advancing Equality and Human Rights in Wales research report: Welsh Government response,
[71] Age Cymru. Prosiect Hawliau Dynol Prosiect Hawliau Dynol
[72] Age Cymru (2022) Prosiect Hawliau Dynol Prosiect Hawliau Dynol
[73] Equality Advisory & Support Service http://www.equalityadvisoryservice.com/ (29/09/22).
[74] Age Cymru (2022) Prosiect Hawliau Dynol Prosiect Hawliau Dynol
[75] Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[76] yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac yn creu safonau'r Gymraeg sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[77,78]

Mae gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan sefydliadau cyhoeddus* heb orfod gofyn am y gwasanaethau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, llythyrau, e-byst, ffurflenni ar-lein a galwadau ffôn yn Gymraeg, a defnyddio'r Gymraeg ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r hawliau hyn sy'n cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu creu gan safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r iaith ym mhob agwedd o fywyd bob dydd.[79]

Rhestr o ofynion cyfreithiol yw safonau'r Gymraeg, sy'n sefydlu'r hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.[80,81] Comisiynydd y Gymraeg sy'n penderfynu pa safonau sy'n effeithio ar sefydliadau. [82] Pwrpas safonau'r Gymraeg yw: sicrhau eglurder i bobl yng Nghymru am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan sefydliadau o ran y Gymraeg; sicrhau eglurder i sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg; a sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella ansawdd i ddefnyddwyr.[83]

Cyflwynwyd safonau'r Gymraeg ar gyfer gofal cymdeithasol, ac yn fwy diweddar ar gyfer iechyd, a dylai Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru (gweler isod) ategu gweithrediad y safonau yn effeithiol.[84] Yn 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy na geiriau', Fframwaith Strategol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.[85] Roedd fframweithiau strategol dilynol yn cynnwys saith maes blaenoriaeth: plant a phobl ifanc; pobl hŷn; pobl ag anableddau dysgu; defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl; pobl sy'n byw gyda dementia; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc; a phobl sy'n cael mynediad at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith, gan roi anghenion yr unigolyn wrth wraidd y gofal.[86] Nod y fframweithiau oedd sicrhau lefel uwch o gydnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau bod defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn fater o ddewis ond yn fater o angen.[87]

Roedd egwyddor cynnig gweithredol yn elfen graidd o bob fframwaith, a oedd yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu cynnig iaith

---

76 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
77 Safonau'r Gymraeg
78 Welsh language standards: Planning and Environment Decisions Wales | GOV.WALES
* Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Safonau'r Gymraeg 17/11/2022
79 'Mae gen i Hawl' campaign (welshlanguagecommissioner.wales)
80 Safonau'r Gymraeg
81 'Mae gen i Hawl' campaign (welshlanguagecommissioner.wales)
82 Safonau'r Gymraeg
83 Ibid.
84 More than just words (gov.wales)
85 Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol
86 Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol
87 Ibid.

ragweithiol fel bod pobl yn gallu cael gafael ar ofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg.[88] Roedd y Cynnig Gweithredol yn cyfleu pwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth Cymraeg nid yn unig fel hawl neu ddewis, ond fel angen hanfodol i lawer o siaradwyr Cymraeg.[89]

Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau' 2022-2027[90] sy'n egluro sut y byddant yn gwreiddio'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol fel y gall pobl gael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen.

Nododd y cynllun pum mlynedd anghysondeb o ran cynnydd, ac roedd amrywiaeth eang o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yna hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Cynnig Gweithredol heb fawr o dystiolaeth ei fod yn cael ei gyfeirio ato mewn cynlluniau. Mae'r cynllun pum mlynedd yn ceisio mynd i'r afael â materion o'r fath,[91] a nodau allweddol y cynllun yw: ymgorffori diwylliant iach o berthyn i'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a chyflawni nodau ac egwyddorion Mwy na geiriau; a dangos tystiolaeth o arweinyddiaeth ar bob lefel i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg i ddarparu gwasanaethau o safon a gwell canlyniadau i unigolion.[92]

Rydym yn croesawu'r cynigion a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pum mlynedd hwn, ac yn benodol y pwyslais ar fonitro cynnydd. Mae'n hanfodol bod pobl sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn cael eu cefnogi gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfathrebu yn gwbl allweddol i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol, yn briodol ac, yn hollbwysig, yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dangosodd canfyddiadau ymchwil a oedd yn cynnwys defnyddio profiadau a lleisiau pobl sy'n byw gyda dementia[93] enghreifftiau cadarnhaol o siaradwyr Cymraeg a oedd yn derbyn llawer iawn o'u gofal yn y Gymraeg mewn rhai ardaloedd. Roedd sefydliadau yn gwneud eu gorau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg er gwaethaf cyfyngiadau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ni chafodd nifer o bobl lawer o'u gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, er gwaetha'r ffaith yr hoffent wneud hynny. Roedd pobl yn ofni gofyn am wasanaethau Cymraeg rhag ofn nad oedden nhw'n derbyn gwasanaethau o gwbl.[94]

Mae Cynllun Gweithredu Dementia Cymru (2018-2022) Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod derbyn gofal a chymorth yn eu hiaith gyntaf neu eu dewis iaith yn fater o angen clinigol. Gall anghenion iaith pobl sy'n byw gyda dementia newid wrth i'r cyflwr waethygu, ac mae angen i wasanaethau fod yn ymwybodol o anghenion iaith a

---

[88] Ibid.
[89] Ibid.
[90] Ibid
[91] Ibid.
[92] Ibid.
[93] Age Cymru (2019) EnvisAGE EnvisAGE
[94] Ibid.

chyfathrebu unigolyn. Wrth i'w cyflwr waethygu, efallai mai dim ond yn eu hiaith gyntaf bydd pobl yn medru cyfathrebu.[95]

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal, oherwydd gallai ansawdd gofal gael ei beryglu os nad yw unigolion yn medru cyfathrebu gan ddefnyddio eu hiaith gyntaf. I lawer o bobl hŷn mae defnyddio'r Gymraeg yn fater o angen clinigol, yn enwedig y bobl sy'n byw gyda dementia neu bobl sydd wedi cael strôc a allai golli eu sgiliau cyfathrebu drwy'r Saesneg.[96]

Nid yw materion sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gyfyngedig i iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Er enghraifft, mae Age Cymru Gwynedd a Môn eisoes wedi tynnu sylw at faterion[97] yn ymwneud â'r anawsterau o ran cael cynrychiolydd sy'n cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn achosion tribiwnlys, sydd yn aml yn gohirio'r broses ac yn peri straen ychwanegol i'w cleientiaid - mewn un achos bu'n rhaid i'r cleient aros am ddwy flynedd. Gall achosion tribiwnlys fod yn brofiadau brawychus, ond gall mynd i'r Llys i frwydro dros fudd-daliadau heb y cyfle i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn straen mawr i rai pobl, ac mae'n golygu nad ydynt yn gallu arfer eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Credwn ei bod yn arbennig o bwysig bod darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod adnoddau Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg hŷn, yn enwedig pan fyddant yn trafod gwybodaeth bwysig fel eu hiechyd personol a'u gofal cymdeithasol a gwybodaeth bersonol arall. Mae gallu cyfathrebu gwybodaeth sensitif a hanfodol yn aml drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o wneud y broses o gyfathrebu'n fwy effeithiol gan arwain at ganlyniadau gwell i'r darparwyr gwasanaethau a'r unigolyn hŷn.

Mewn arolwg diweddar o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, nododd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg: roedd 42% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu yn eu bywydau bob dydd a 57% yn teimlo bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sector cyhoeddus yn cynyddu.[98,99]

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn tynnu sylw at bwysigrwydd ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg - a'r angen i greu amgylchedd lle bydd pawb eisiau defnyddio'u Cymraeg a theimlo'n gyfforddus i wneud hynny ar bob cyfle.[100] Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau bob dydd, er enghraifft, ffurflenni'r dreth gyngor, budd-daliadau tai, cyngor a chymorth am dai a thrwyddedau parcio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i bobl wybod ble y gallant gael gafael ar wybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

---

95 Cynllun gweithredu ar gyfer dementia 2018 i 2022
96 Age friendly Wales: our strategy for an ageing society | GOV.WALES
97 Age Cymru (2020) Ymateb ymgynghoriad i adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg.
98 Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg: Blwyddyn o heriau a cholled
99 Adroddiad Blynyddol 2021-22Adroddiad Blynyddol 2021-22
100 Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

Mae'n hanfodol bod y sefydliadau cyhoeddus hynny y mae'n ofynnol iddynt wneud hynny yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal.

**Cynigion polisi cyhoeddus**

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad cynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau' yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Rhaid i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg barhau i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2022.